***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, ATODLEN 12. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 12

(a gyflwynir gan adran 30(1))

## RHYDDHAD AR GYFER YMGORFFORI PARTNERIAETH ATEBOLRWYDD CYFYNGEDIG

*Y rhyddhad*

1 Mae trafodiad pan fo person ("y trosglwyddwr") yn trosglwyddo buddiant trethadwy i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig mewn cysylltiad â'i ymgorffori wedi ei ryddhau rhag treth os bodlonir amodau A i C.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 12 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 12 para. 1 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

*Amod A*

2 Amod A yw nad yw'r dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith fwy na blwyddyn ar ôl dyddiad ymgorffori'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 12 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I4** Atod. 12 para. 2 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

*Amod B*

3 Amod B yw bod y trosglwyddwr, ar yr adeg berthnasol—

(a) yn bartner mewn partneriaeth sy'n cynnwys yr holl bersonau sy'n aelodau o'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, neu a fydd yn aelodau ohoni (a neb arall), neu

(b) yn dal y buddiant trethadwy fel enwebai neu ymddiriedolwr noeth i un partner neu ragor mewn partneriaeth o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 12 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I6** Atod. 12 para. 3 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

*Amod C*

4 Amod C yw—

(a) bod y cyfrannau o'r buddiant trethadwy y mae gan y personau a grybwyllir ym mharagraff 3(a) yr hawl iddynt yn union ar ôl y trosglwyddiad yr un fath â'r rheini yr oedd ganddynt hawl iddynt ar yr adeg berthnasol, neu

(b) nad yw yr un o'r gwahaniaethau yn y cyfrannau hynny wedi codi fel rhan o drefniadau y mae osgoi atebolrwydd i dreth yn brif ddiben iddynt, neu'n un o'u prif ddibenion.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, ATODLEN 12. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 12 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I8** Atod. 12 para. 4 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

*Dehongli*

5 (1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "yr adeg berthnasol" ("*the relevant time*") yw—

(a) pan fu i'r trosglwyddwr gaffael y buddiant trethadwy ar ôl ymgorffori'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, yn union ar ôl i'r trosglwyddwr ei gaffael, a

(b) mewn unrhyw achos arall, yn union cyn ymgorffori'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

ystyr "partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig" ("*limited liability partnership*") yw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a ffurfiwyd o dan Ddeddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000 (p.12).

(2) Ym mharagraff 4(b) mae "trefniadau" yn cynnwys unrhyw gynllun, unrhyw gytundeb neu unrhyw ddealltwriaeth, pa un a ellir ei orfodi neu ei gorfodi'n gyfreithiol ai peidio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. 12 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I10** Atod. 12 para. 5 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, ATODLEN 12.